**Rhif: WG40332**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Cytundebau partneriaeth dreftadaeth: rheoliadau a chanllawiau

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ionawr 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 12 Ebrill 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Crown Copyright

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar:<br>• Reoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) drafft 2021<br>• Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021<br>• Canllawiau drafft, *Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yng Nghymru.*<br>• Rheoliadau Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth – Asesiad Effaith Rheoleiddiol<br>• Rheoliadau Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth – Asesiad Effaith Integredig<br><br>Datblygwyd yr ymgynghoriad hwn fel elfen o raglen ehangach i wella'r gwaith o ddiogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. |
| **Sut i ymateb** | Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 12 Ebrill 2021. Gallwch ymateb ar-lein, mewn e-bost neu drwy'r post.<br><br>**Ar-lein**<br>Llenwch yr holiadur ar-lein ar dudalennau ymgynghoriadau gwefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/cytundebau-partneriaeth-dreftadaeth-rheoliadau-chanllawiau<br><br>**E-bost**<br>Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad DD a'i hanfon i:<br>historicenvironmentleg@llyw.cymru<br><br>**Post**<br>Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad DD a'i hanfon at:<br><br>Ymgynghoriad Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth<br>Cadw<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979<br>https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1979/46/contents<br><br>Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990<br>https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/contents<br><br>Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016<br>https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents |

| | |
|---|---|
| | *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yn Gynaliadwy*<br>https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth/egwyddorion-cadwraeth<br><br>*Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*<br>https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cy-placemaking/asesiadau-or-effaith-ar-dreftadaeth/asesiadau-or-effaith-ar<br><br>*Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig*<br>https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/rheoli-newid-i-adeiladau-rhestredig<br><br>*Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru*<br>https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/canllawiau-arfer-gorau#section-gofalu-am-dreftadeath-yr-arfordir |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>historicenvironmentleg@llyw.cymru<br><br>Ymgynghoriad Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth<br>Cadw<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd CF10 3NQ<br><br>03000 259 096 |
| **Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd** | https://gov.wales/heritage-partnership-agreements-regulations-and-guidance |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth hefyd.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cefndir

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn rhan hanfodol o'n dreftadaeth ddiwylliannol gyffredin. Mae'n llywio ein hymdeimlad o le ac yn cyfrannu at ein llesiant ac ansawdd ein bywyd. Mae adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn amgylchedd hanesyddol Cymru, yn aml fel canolbwynt mewn trefi a chymunedau lle maent yn gwneud cyfraniadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol arwyddocaol fel atyniadau i ymwelwyr, busnesau, cyfleusterau cymunedol, addysg a hamdden, a chartrefi.

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i berchnogion adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig wneud cais am ganiatâd i wneud gwaith ar eu hasedau hanesyddol. Efallai y bydd rhaid i berchnogion sy'n rhan o raglenni gwaith hirdymor neu sy'n gyfrifol am nifer o asedau hanesyddol wneud nifer o geisiadau ailadroddus am ganiatâd. Gall hyn fod yn gostus a gall lyncu eu hamser nhw a'r awdurdodau caniatáu.

Roedd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn diwygio Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ('Deddf 1979') a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ('Deddf 1990') i ddarparu ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth yng Nghymru.

Cytundeb gwirfoddol ar gyfer rheoli un neu fwy o asedau hanesyddol dynodedig yn yr hirdymor yw cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Caiff ei negodi rhwng perchennog yr ased/au, yr awdurdod neu awdurdodau caniatáu perthnasol ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb. Yn hanfodol, gall cytundeb partneriaeth dreftadaeth gynnwys caniatadau adeilad rhestredig a/neu heneb gofrestredig ar gyfer rhaglen waith y cytunwyd arni i'w chynnal yn ystod oes y cytundeb, a all bara cyhyd â 10 i 15 mlynedd.

Mae cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn cefnogi trefniadau rheoli hirdymor, buddiol ar gyfer asedau hanesyddol drwy bennu amcanion cadwraeth y cytunwyd arnynt, nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i'w cyflawni mewn rhaglen waith wedi'i chynllunio a darparu'r caniatadau angenrheidiol. Gall y cytundeb ddarparu'r sylfaen felly ar gyfer dull cynhwysfawr a chyson o reoli henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig, boed wedi'u lleoli gyda'i gilydd ar un ystad neu wedi'u gwasgaru ar draws un awdurdod lleol neu fwy.

Er y bydd rhaid i'r partïon dan sylw fuddsoddi amser ac adnoddau i ddatblygu'r cytundeb, bydd yn dod â llu o fanteision ar ôl cytuno'n derfynol arno. I'r perchennog, bydd yn rhoi sicrwydd o gynllun rheoli asedau hanesyddol hirdymor sydd wedi derbyn cymeradwyaeth yr awdurdod neu awdurdodau caniatáu perthnasol. Bydd awdurdod caniatáu – boed yn awdurdod cynllunio lleol ar gyfer adeilad rhestredig neu Cadw ar gyfer heneb gofrestredig – yn elwa hefyd drwy sicrhau arbedion amser a chostau gan y bydd y caniatadau yn y cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn dileu'r angen i dderbyn a phrosesu sawl cais caniatâd unigol, yn aml ar gyfer gwaith tebyg a bychan.

Bydd yr asedau dynodedig yn elwa hefyd ar gael eu cynnwys mewn cytundeb. Bydd cynllun rheoli'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn cefnogi cadwraeth gyson i'r asedau, boed dros amser neu ar draws ffiniau cynllunio. Bydd y dull hirdymor hwn o reoli newid yn ofalus a chynaliadwy'n lleihau'r tebygolrwydd o newidiadau amhriodol neu heb eu cynllunio a allai arwain at waith trwsio costus.

## Beth ydym ni'n ei gynnig?

**Rheoliadau drafft – Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021 (Atodiad A)**

Mae adrannau 9ZA a 9ZB o Ddeddf 1979 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth henebion cofrestredig, ond yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar y canlynol hefyd:

i. yr ymgynghoriad sy'n rhaid ei gynnal cyn gwneud neu amrywio cytundeb partneriaeth dreftadaeth;
ii. y cyhoeddusrwydd sy'n rhaid ei roi i gytundeb partneriaeth dreftadaeth cyn neu ar ôl iddo gael ei wneud neu ei amrywio;
iii. nodi'r termau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth;
iv. galluogi Gweinidogion Cymru i derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth neu unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath drwy orchymyn.

Mae'r Ddeddf yn darparu hefyd ar gyfer rheoliadau i gymhwyso, datgymhwyso neu ailgynhyrchu adrannau o Ddeddf 1979 at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

Cyflwynir Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021, sydd wedi'u creu i fodloni'r gofynion hynny, ar ffurf drafft yn **Atodiad A** yn awr.

Bydd unrhyw newidiadau i'r rheoliadau sy'n cael eu hystyried yn briodol yn sgil yr ymgynghoriad hwn yn cael eu gwneud cyn eu cyflwyno gerbron y Senedd i'w cymeradwyo. Unwaith y bydd y rheoliadau wedi'u cymeradwyo, bydd darpariaethau cytundebau partneriaeth dreftadaeth Deddf 1979 yn dod i rym.

**Rheoliadau drafft – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021 (Atodiad B)**

Mae adrannau 26L a 26M o Ddeddf 1990 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth adeiladau rhestredig, ond yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar y canlynol hefyd:

i. yr ymgynghoriad sy'n rhaid ei gynnal cyn gwneud neu amrywio cytundeb partneriaeth dreftadaeth;
ii. y cyhoeddusrwydd sy'n rhaid ei roi i gytundeb partneriaeth dreftadaeth cyn neu ar ôl iddo gael ei wneud neu ei amrywio;
iii. nodi'r termau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth;
iv. galluogi Gweinidogion Cymru i derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth neu unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath drwy orchymyn;
v. galluogi unrhyw awdurdod cynllunio lleol sy'n barti i gytundeb partneriaeth dreftadaeth adeilad rhestredig i derfynu'r cytundeb, neu unrhyw ddarpariaeth yn y cytundeb, trwy orchymyn.

Mae'r Ddeddf yn darparu hefyd ar gyfer rheoliadau i gymhwyso, datgymhwyso neu ailgynhyrchu adrannau penodol o Ddeddf 1979 at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

Cyflwynir Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021, sydd wedi'u creu i fodloni'r gofynion hynny, ar ffurf drafft yn **Atodiad B** yn awr.

Bydd unrhyw newidiadau i'r rheoliadau sy'n cael eu hystyried yn briodol yn sgil yr ymgynghoriad hwn yn cael eu gwneud cyn eu cyflwyno gerbron y Senedd i'w cymeradwyo. Unwaith y bydd y rheoliadau wedi'u cymeradwyo, bydd darpariaethau cytundebau partneriaeth dreftadaeth Deddf 1990 yn dod i rym.

## Canllawiau drafft – *Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yng Nghymru* (Atodiad C)

Gan y bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn newydd i Gymru, mae Cadw wedi datblygu canllawiau drafft i gefnogi eu cyflwyniad: *Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yng Nghymru.* Amgaeir y canllawiau yn **Atodiad C**. Nod y canllawiau yw helpu perchnogion ac awdurdodau caniatáu drwy esbonio mantais a chwmpas cytundebau partneriaeth dreftadaeth, natur y gwaith y gellir ei gynnwys mewn cytundeb o'r fath, a sut i sefydlu cytundeb. Mae'n nodi'r trefniadau gweinyddol sydd angen eu dilyn pan fydd cytundeb ar waith hefyd.

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Atodiad CH)

Paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â'r rheoliadau drafft ac mae wedi'i amgáu yn **Atodiad CH**. Paratowyd asesiad o gostau a buddion cytundebau partneriaeth dreftadaeth i gyd-fynd â'r gwaith craffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Nid yw'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn yn ailadrodd yr asesiad hwnnw, ond yn hytrach mae'n edrych ar y gwahanol opsiynau sydd ar gael i Weinidogion Cymru wrth lunio'r rheoliadau a gyflwynir uchod o dan Ddeddfau 1979 a 1990. Mae'n asesu costau a buddion pob opsiwn, gan ddod i'r casgliad bod angen dull hyblyg o sicrhau'r canlyniad gorau i bartïon y cytundeb ac i'r asedau hanesyddol eu hunain.

## Asesiad Effaith Integredig drafft (Atodiad D)

Cynhaliwyd asesiad effaith integredig ar gyfer y rheoliadau drafft ac mae wedi'i amgáu'n llawn yn **Atodiad D**. Er bod yr asesiad yn cydnabod y bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn cefnogi gwaith rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy, hyrwyddo ymgysylltiad â'r cyhoedd a diogelu diwylliant a threftadaeth, mae'n cydnabod na fydd y rheoliadau eu hunain, sy'n weithdrefnol a gweinyddol eu natur, yn cael fawr o effaith uniongyrchol.

## Ymgynghori
## Ffurflen Ymateb

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

| | | |
|---|---|---|
| Math *(dewiswch un o'r canlynol)* | Unigolyn | ☐ |
| | Busnes | ☐ |
| | Awdurdod cynllunio lleol | ☐ |
| | Ymddiriedolaeth archaeolegol | ☐ |
| | Un o asiantaethau'r Llywodraeth/Corff arall yn y sector cyhoeddus | ☐ |
| | Corff proffesiynol | ☐ |
| | Grŵp â buddiant | ☐ |
| | Y sector gwirfoddol (grŵp cymunedol, grŵp gwirfoddol, grŵp hunangymorth, cwmni cydweithredol, menter, sefydliad nid er elw) | ☐ |
| | Grŵp arall nas rhestrir uchod | ☐ |

**C1:** Nod y canllawiau drafft, cytundebau partneriaeth dreftadaeth yng Nghymru, yw helpu perchnogion ac awdurdodau caniatáu i sefydlu a rheoli cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Mae'r prif ganllawiau ar sefydlu cytundeb yn adran 3. A oes digon o fanylion yma i gefnogi creu cytundeb partneriaeth dreftadaeth?

Oes ☐ Nac oes ☐

Os na, sut y gellid eu gwella?

| |
|---|
| |

**C2:** Mae trefniadau'r ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth wedi'u nodi yn

- rheoliadau 5 i 7 a 9 o Reoliadau drafft Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021;
- rheoliadau 4 i 5 o Reoliadau drafft Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021;
- adran 4 o'r canllawiau drafft, cytundebau partneriaeth dreftadaeth yng Nghymru.

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

Os na, sut y gellid eu gwella?

| |
|---|
| |

**C3:** Nid yw'n fwriad i fân newidiadau i gytundebau partneriaeth dreftadaeth ysgogi'r gofynion cyhoeddusrwydd ac ymgynghori a nodir yn:

- rheoliad 5 o Reoliadau drafft Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021
- rheoliad 4 o Reoliadau drafft Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021

Mae'r canllawiau drafft, cytundebau partneriaeth dreftadaeth yng Nghymru, yn ehangu ar y gofynion hyn ym mharagraff 3.10. Allwch chi ddarparu enghreifftiau o newidiadau y credwch y dylai cytundebau partneriaeth dreftadaeth allu eu caniatáu heb fod angen cyhoeddusrwydd ac ymgynghoriad llawn?

| |
|---|
| |

**C4:** Mae adran 7 o'r canllawiau drafft, cytundebau partneriaeth dreftadaeth yng Nghymru, yn darparu templed ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Ydych chi'n credu y bydd y templed hwn yn ddefnyddiol?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os na, sut y gellid ei wella?

**C5:** Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn atodiad CH yn dadansoddi costau a buddion y rheoliadau cytundebau partneriaeth dreftadaeth arfaethedig. Oes gennych chi wybodaeth neu dystiolaeth arall y byddai'n ddefnyddiol i'w hychwanegu at yr asesiad hwn?

**C6:** Mae'r asesiad effaith integredig drafft yn atodiad D yn ystyried effaith y rheoliadau cytundebau partneriaeth dreftadaeth arfaethedig mewn nifer o feysydd. Oes gennych chi wybodaeth neu dystiolaeth arall a fyddai'n ddefnyddiol i'w hychwanegu at yr asesiad hwn?

**Cwestiwn A**: Mae dyletswydd arnom i ystyried effeithiau ein polisïau ar yr iaith Gymraeg, o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Hoffem wybod eich barn am yr effaith fyddai'r cynigion yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Cwestiwn B**: Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y cynigion i gael effaith bositif neu i gynyddu yr effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac

ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â’r Saesneg.

**Cwestiwn C**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw’n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.